



Teithiau cerdded y goedwig
Forest walks



Cyfoeth
Naturiol
Cymru
Natural
Resources
Wales

Coedwig Dyfi Forest



Cymru
Wales

Croeso i Goedwig Dyfi

Welcome to Dyfi Forest



Mae'n werth archwilio tirwedd drawiadol Coedwig Dyfi.

Mae copaon ysgythrog yn codi uwchben y llethrau coediog sy'n frith o adfeilion llawn atgofion a thomenni llechi.

Mae ffrydiau mynyddig byrlymus yn rhaeadr i lawr dyffrynnoedd creigiog, lle ceir hen goed derw wedi eu gorchuddio â mwsogl.

Mae trenau stêm yn pwffian ar hyd y llethrau, a bellach yn cludo twristiaid - yn wreiddiol y rhain oedd yn cludo llechi o'r chwareli i'r arfordir.

Y llwybrau cerdded

Yn y goedwig, rydym wedi datblygu cyfres o lwybrau hawdd-i'w-dilyn fel y gallwch archwilio'r ardal dawel hon sydd heb ei darganfod.

Mae'r llwybrau'n dilyn cymysgedd diddorol o ffyrdd coedwig a llwybrau tramwy garw, gyda mwd, gwreiddiau a chreigiau fan hyn a fan draw. Mae yna esgyniadau a disgynfeydd serth oherwydd natur y tir. Nid yw'r llwybrau'n addas ar gyfer cadeiriau gwthio.

Mae'r goedwig yn safle amldefnydd. Cofiwch y gallech ddod ar draws cerddwyr, cŵn, beicwyr mynydd, marchogion neu gerbydau ar unrhyw adeg.

The spectacular landscape of Dyfi Forest is well worth exploring.

Rugged peaks loom above the forested hillsides that are dotted with atmospheric ruins and slate spoil heaps.

Fast-flowing mountain streams cascade down rocky valleys, edged by old moss-covered oaks.

Steam trains chug along the hillsides, now carrying holidaymakers, but originally carrying slates from the quarries to the coast.

The walks

Within the forest, we have developed a series of easy-to-follow trails so you can explore this peaceful and undiscovered area.

The trails follow an interesting mixture of forest road and rough unmade rights of way, with occasional mud, roots and rocks. There are steep ascents and descents due to the nature of the terrain. The trails are not suitable for pushchairs.

The forest is a mixed-use site. Please be aware that you may come across walkers, dogs, mountain bikers, horse riders or vehicles at any time.

- Parcio
Parking
- Parcio (tâl)
Parking (charge)
- Parcio hygyrch
Accessible parking
- Canolfan wybodaeth
Information centre
- Caffi
Café
- Llwybr cerdded
Walking trail
- Llwybr hygyrch
Accessible trail
- Safle picnic
Picnic site
- Golygfan
Viewpoint

- Toileddau
Toilets
- Toileddau hygyrch
Accessible toilets
- Llwybr beicio mynydd
Mountain bike trail
- Siop
Shop
- Tafarn
Pub
- Panel dehongli
Interpretation panel
- Gorsafoddd Rheilffordd
Tal-y-llyn
Tal-y-llyn Railway Stations
- Cyfleusterau
trydydd parti
Third-party facilities

Castell y Bere

Abergynolwyn

Gorsaf
Nant Gwernol
Station

Coed Nant Gwernol

Gorsaf Abergynolwyn Station

Pennal

**Coedwig
Pennal
Forest**

**Coedwig
Dyfi
Forest**

**Labrith y Brenin Arthur
a'r Ganolfan Grefftau**

**King Arthur's Labyrinth
& Craft Centre**

Tan y Coed

**Gwarchodfa Natur Genedlaethol
Cadair Idris**
National Nature Reserve

Foel Friog

Amgueddfa Reilffordd

Railway Museum

**Ceinws
(ClimachX)**

Ceinws
Esgairgeiliog

**Canolfan y
Dechnoleg Amgen**

Centre for Alternative
Technology

Machynlleth

© Cyfoeth Naturiol Cymru a hawli cronfa ddata. Cedwir pob hawl. Yn cynnwys data'r Arolwg Ordnans © Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata. Rhif trwydded Arolwg Ordnans AC000849444. Cafodd data ei ddigideiddio o ddata © pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru.
© Natural Resources Wales and database right. All rights reserved. Contains OS data © Crown Copyright and database rights. Ordnance Survey Licence number AC000849444. Data was digitised from data © all 22 Welsh Local Authorities.

Coed Nant Gwernol



Mae ceunant creigiog Coed Nant Gwernol, gyda'i raeadrau byrlymus, uwchben dyffryn hyfryd Tal-y-llyn, yng nghysgod Cadair Idris. Mae'r llwybrau'n dilyn glannau'r afon ac yn arwain at olion hen Chwarel Bryn-Eglwys. Gallwch barcio'r car a chychwyn cerdded o neuadd bentref Abergynolwyn neu fynd ar y trê'n stêm o Dywyn i Orsaf Nant Gwernol.

Llwybr Cyswllt y Gorsafoedd

Pellter: 1.1 m | 1.7 km

(yna yn unig)

Amser: ¾ awr

Gradd: Cymedrol

Dringo: 318 tr | 97 m

Llwybr y Rhaedrau

Pellter: 1.1 m | 1.7 km

Amser: 1 awr

Gradd: Cymedrol

Dringo: 377 tr | 115 m

Llwybr y Chwarelwr

Pellter: 3.2 m | 5.1 km

Amser: 2½-3 awr

Gradd: Anodd

Dringo: 981 tr | 299 m

Coed Nant Gwernol, a rocky river gorge with cascading waterfalls, lies above the picturesque Tal-y-llyn valley in the shadow of Cadair Idris. The trails follow the riverside and explore the remains of Bryn-Eglwys Slate Quarry. You can park and start your walks from Abergynolwyn Village Hall or take the steam train from Tywyn to Nant Gwernol Station.

Stations Link Trail

Distance: 1.1 m | 1.7 km

(each way)

Time: ¾ hour

Grade: Moderate

Climb: 318 ft | 97 m

Cascades Trail

Distance: 1.1 m | 1.7 km

Time: 1 hour

Grade: Moderate

Climb: 377 ft | 115 m

Quarryman's Trail

Distance: 3.2 m | 5.1 km

Time: 2½-3 hours

Grade: Strenuous

Climb: 981 ft | 299 m



Tan y Coed



Mae dau lwybr distaw, sy'n arwain drwy'r coed ac ar hyd glannau'r afon, yn cychwyn o safle picnic hygyrch Tan y Coed, ar ffordd yr A487 o Gorris. Codwch daflen **Llwybr Darganfod Anifeiliaid** ar gyfer teuluoedd ar y safle.

Llwybr Darganfod Anifeiliaid

Pellter: 1.1 m | 1.8 km

Amser: 1 awr

Gradd: Cymedrol

Dringo: 384 tr | 117 m

Llwybr Tan y Coed

Pellter: 1.5 m | 2.3 km

Amser: 1½ awr

Gradd: Cymedrol

Dringo: 532 tr | 162 m

Tan y Coed, an accessible picnic site on the A487 south of Corris is the starting point for two tranquil woodland and riverside walks. Pick up the leaflet for the **Animal Discovery Trail** for families on site.

Animal Discovery Trail

Distance: 1.1 m | 1.8 km

Time: 1 hour

Grade: Moderate

Climb: 384 ft | 117 m

Tan y Coed Trail

Distance: 1.5 m | 2.3 km

Time: 1½ hours

Grade: Moderate

Climb: 532 ft | 162 m

Foel Friog



Mae'r safle picnic glan afon hyfryd yn Foel Friog mewn llecyn mwy anghysbell yn Aberllefenni. Oddi yma, mae **Llwybr Pen y Bryn** yn dringo ar hyd ochr y bryn gan fynd heibio i adfeilion ffermdai.

Llwybr Pen y Bryn

Pellter: 2.1 m | 3.4 km

Amser: 1½ awr

Gradd: Anodd

Dringo: 719 tr | 219 m

The pretty riverside picnic site at Foel Friog is further off the beaten track, at Aberllefenni. You can start the **Pen y Bryn Trail** here. Climb the hillside, passing ruined farmsteads and enjoy panoramic views.

Pen y Bryn Trail

Distance: 2.1 m | 3.4 km

Time: 1½ hours

Grade: Strenuous

Climb: 719 ft | 219 m

Llwybr beicio mynydd



ClimachX

Mountain bike trail

Mae'r llwybr yn cael ei reoli a'i gynnal a chadw gan grŵp cymuned lleol 'Beicio Mynydd Dyfi Mountain Biking'; gweler beiciomynddyfi.org.uk am fwy o fanylion.

Pellter: 14.9 km

Amser: 1-2 awr

Gradd: Coch | Anodd

Dringo: 1765 tr | 538 m

The trail is looked after and managed by the community interest company 'Beicio Mynydd Dyfi Mountain Biking'; see beiciomynddyfi.org.uk for more details.

Distance: 14.9 km

Time: 1-2 hours

Grade: Red | Difficult

Climb: 1765 ft | 538 m



Coed Nant Gwernol



Bywyd caled y chwareli

Ar y llwyfandir uwchben y ceunant gellir gweld olion Chwarel Lechi Bryn-Eglwys lle bu cenedlaethau o ddynion a bechgyn yn gweithio'r gwythiennau llechi cyfoethog o dan y ddaear yn ystod y 19eg ganrif a'r 20fed ganrif.

Byddai'r mwyafrif ohonynt yn cerdded bob dydd o bentref Abergynolwyn, ond byddai rhai yn teithio ar y trên ac yn aros ym marics y chwarel yn ystod yr wythnos.

Byddai'r chwarelwyr yn gweithio mewn timau o bedwar. Byddai dau *greigiwr* yn drilio a chwythu o dan y ddaear tra byddai'r ddau a oedd yn gweithio uwchben y ddaear yn dod â'r llechfaen allan ac yn defnyddio cŷn a lletem i'w hollti'n ddarnau digon bach i'w cludo ymaith.

Byddai'r slabiau yn cael eu hollti'n llechi yn y felin, ac yn cael eu llwytho a'u cludo i lawr y dyffryn ar y dramffordd. Yna, caent eu symud i Reilffordd Tal-y-llyn a'u cludo i'r lanfa yn Nhywyn.

Mae Chwarel Lechi Bryn-Eglwys bellach yn rhan o Safle Treftadaeth y Byd Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru.

Gweler www.llechi.cymru/cy/safletreftadaethbyd am fwy o fanylion.

Coed Nant Gwernol



A hard life in the quarries

On the plateau above the river gorge lie the remains of Bryn-Eglwys Slate Quarry, where generations of men and boys quarried the rich veins of slate below ground in the 19th and 20th centuries.

Most walked daily from Abergynolwyn village but some travelled by train and stayed in barracks at the quarry during the week.


The quarrymen worked in teams of four. Two *rockmen* drilled and blasted below ground while two men above ground brought out the rock and broke it into moveable sizes with chisels and wedges.

The slabs were then split into slates at the mill, loaded onto trucks and taken down the valley via the tramway. Here they were transferred onto the Tal-y-llyn railway and unloaded onto the wharf at Tywyn.

The Bryn-Eglwys Slate Quarry is now part of The Slate Landscape of Northwest Wales World Heritage Site.

See www.llechi.cymru/worldheritagesite for more details.

Llwybr Cyswilt y Gorsafoedd



Stations Link Trail



Cychwyn:

Naill ai gorsafoedd Nant Gwernol neu Abergynolwyn. O Neuadd Bentref Abergynolwyn cymerwch y llwybr cyswilt i Orsaf Nant Gwernol.

Pellter: 1.1 m | 1.7 km

Amser: ¾ awr

Gradd: Cymedrol, gyda dringfa serth i gyfeiriad Nant Gwernol a disgyniad serth i Abergynolwyn.

Dringo: 318 tr | 97 m (Abergynolwyn i Nant Gwernol)

Uchafbwyntiau: Golygfeydd o'r mynyddoedd o amgylch, trenau stêm ac incllein Allt Wylt hanesyddol.

Rhybudd: Cofiwch wyllo rhag trenau wrth groesi'r groesfan ar hyd y llwybr.



Start:

Nant Gwernol or Abergynolwyn stations. From Abergynolwyn Village Hall take the link path to Nant Gwernol Station.

Distance: 1.1 m | 1.7 km

Time: ¾ hour

Grade: Moderate, with steep climb to Nant Gwernol and steep descent to Abergynolwyn

Climb: 318 ft | 97 m (Abergynolwyn to Nant Gwernol)


Highlights: Views of surrounding mountains, steam trains and the historic Allt Wylt incline.

Caution: Please look out for trains when walking over the level crossing along the trail.

Cychwyn: Gorsaf Abergynolwyn
Gorffen: Gorsaf Nant Gwernol

Start: Abergynolwyn Station
Finish: Nant Gwernol Station

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE



Llwybr y Rhaedrau



Cascades Trail



Safleoedd cychwynnol:

- Gorsaf Nant Gwernol
- Gorsaf Abergynolwyn: dilynwch Llwybr Cyswllt y Gorsafoddi i Orsaf Nant Gwernol
- Neuadd Bentref Abergynolwyn: dilynwch y Llwybr cyswllt llwyd ar y map i Orsaf Nant Gwernol.

Pellter: 1.1 m | 1.7 km

Amser: 1 awr

Gradd: Cymedrol gyda llethr serth i'w ddringo

Dringo: 377 tr | 115 m

Uchafbwyntiau: Yr afon raeadraidd, trenau stêm, incline Allt Wyllt.

Chwiliwch am: Lethrau byr a serth - mae'n bosibl mai hen incliniau oedd rhai o'r rhain, lle byddai'r wagenni llechi yn cael eu tynnu i fyny ac i lawr. Chwiliwch am olion y *cytiau weindio* a'r *cyfarpar dirwyn*, neu *winch*, ar ben y llethr.



Starting points:

- Nant Gwernol Station
- Abergynolwyn Station: follow the Stations Link Trail to Nant Gwernol Station
- Abergynolwyn Village Hall: follow the grey link route on the map to Nant Gwernol Station.

Distance: 1.1 m | 1.7 km

Time: 1 hour


Grade: Moderate with steep descents

Climb: 377 ft | 115 m

Highlights: The cascading river, steam trains and the Allt Wyllt incline.


Look out for: Short steep slopes may be inclines along which slate trucks once moved up and down. Look for the remains of the *drumhouses* for the *winding gear*, or *winch*, at the top.

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE



Llwybr y Chwarelwr

Quarryman's Trail



Cychwyn:

Gorsaf Nant Gwernol. Parciwch naill ai ym maes parcio Neuadd Bentref Abergynolwyn neu ym maes parcio Gorsaf Abergynolwyn (gweler cofnod 'Llwybr y Rhaeadrau').

Pellter: 3.2 m | 5.1 km

Amser: 2½-3 awr

Gradd: Anodd, gyda llawer o waith dringo a disgyn ar hyd llethrau serth

Dringo: 981 tr | 299 m

Uchafbwyntiau: Golygfeydd eang, rhaeadrau ac olion y chwarel.

Chwiliwch am: Baneli a physt llafar, sy'n adrodd hanes chwarelwyr Bryn-Eglwys a'u teuluoedd.



Start:

Nant Gwernol Station. Park either in Abergynolwyn Village Hall car park or Abergynolwyn Station car park (see 'Cascades Trail' entry).

Distance: 3.2 m | 5.1 km

Time: 2½-3 hours


Grade: Strenuous with long climbs and steep descents

Climb: 981 ft | 299 m

Highlights: Wide views, waterfalls and quarry remains.

Look out for: Panels and wind-up listening posts, which tell the story of the Bryn-Eglwys quarrymen and their families.

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE



Foel Friog



Tystiolaeth gudd o'r gorffennol diwydiannol

Y chwarel oedd y prif gyflogwr yn yr ardal ar ddiwedd y 18fed ganrif, ac roedd dros 800 o ddynion yn gweithio yma.

Pan ddechreuodd y chwareli gau yn ystod yr 20fed ganrif, daeth y Comisiwn Coedwigaeth yn brif gyflogwr, ac aeth ati i blannu ochrau'r brynau o gylch Aberllefenni a Chorris.

Mae'r coed, wrth iddynt dyfu, wedi gweddnewid yr olygfa, ond pan oedd y chwareli yn eu hanterth roedd gan bob chwarel glwstwr o adeiladau, gyda rhodau dŵr, pontydd pwyso, stablau i'r ceffylau a oedd yn tynnu'r wagenni, tramffyrdd a thomenni enfawr o rwbel.

Os edrychwch chi'n ofalus, gallwch weld eu holion o hyd.

Hidden evidence of an industrial past

During the late 18th century, slate quarrying was the major occupation locally, employing over 800 men.

When the quarries began to close in the 20th century the Forestry Commission became the main employer, planting the hillsides around Aberllefenni and Corris.

The maturing trees have transformed the views but, when quarrying was at its peak, each quarry had a cluster of buildings, with waterwheels and weighbridges. They also had stables for the horses that pulled the trucks and trams including moving spoil into vast heaps.

If you look carefully, you can still find evidence of these.

Llwybr Pen y Bryn Pen y Bryn Trail



Cychwyn:

Maes parcio Foel Friog,
Aberllefenni.

Pellter: 2.1 m | 3.4 km

Amser: 1½ awr

Gradd: Anodd, gyda
gellytydd serth i fyny ac
i lawr

Dringo: 719 tr | 219 m

Uchafbwyntiau: Cewch
weld coed derw hynafol
wedi'u gorchuddio â
mwsoglau, rhedyn a
chen, hen ffermdai gwag
yng nghanol y goedwig,
golygfeydd godidog, ac
olion y chwarel.

Chwiliwch am: Yn ystod
y gwanwyn a'r haf, mae'r
coetir derw a'r goedwig
gonwydd yn effro gyda
thrydar adar megis y titw,
y telor, delor y cnau, y
gwybedog brith, y dryw a'r
dryw eurben.

Mae'r amrywiaeth fwyaf
yn byw yn y coetir derw,
ond mae'n well gan rai
adar megis y pila gwyrdd
a'r gylfingroes, sy'n hoffi
conau, fyw yn y goedwig
gonwydd.

Mae adar ysglyfaethus
megis y bwncath yn
esgyn a hofran yn yr awyr
uwchben.



Start:

Foel Friog car park,
Aberllefenni.

Distance: 2.1 m | 3.4 km

Time: 1½ hours

Grade: Strenuous with
steep ascent and descent
Climb: 719 ft | 219 m


Highlights: Ancient oaks
covered with mosses,
ferns and lichens; derelict
farmsteads in the midst of
the forest; superb views
and quarry remains.

Look out for: Both the
oak woodland and conifer
forest are alive in spring and
summer with the constant
twittering of birds such as
tits, warblers, nuthatches,
pied flycatchers, wrens and
goldcrests.

The greatest variety live
in the oak woodland
but some cone-loving
birds such as siskins
and crossbills prefer the
conifers.

Birds of prey, such as
buzzards, soar and hover
in the skies above.

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE



© Hawlfraint y Goron
© Crown copyright

Tan y Coed



Merched wrth eu gwaith

Dechreuodd y Comisiwn Coedwigaeth blannu'r coed hyn ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf gan fod llawer o goed Prydain wedi cael eu defnyddio yn ystod y rhyfel.

Parhaodd y gwaith plannu drwy gydol yr Ail Ryfel Byd gyda chymorth merched Byddin y Tir, a adwaenid fel 'Timber Jills'. Câi llawer o'r gwaith ei wneud â llaw, a byddai ceffylau yn tynnu'r boncyffion.

Beth am wrando ar llwybr sain MP3 'Timber Jills' ar hyd **Llwybr Tan y Coed**, sy'n adrodd stori am anturiaethau'r merched oedd yn gweithio yn y coedwigoedd. Llwythwch y llwybr i lawr o cyfoethnaturiol.cymru/llwybrausain.

Heddiw mae Tan y Coed yn safle picnic dymunol gyda byrddau yng nghysgod coed anferth mewn ardal eang o laswellt yn y maes parcio.

Mae'n fan cychwyn ar gyfer dau dro tawel heibio hen goed mwsoglyd ac ar hyd yr afon, gan gynnwys **Llwybr Darganfod Anifeiliaid** i deuluoedd.

Women at work

The Forestry Commission began planting these woods after the First World War as the war effort had used up Britain's timber.

This continued through the Second World War with Land Army Girls, known as 'Timber Jills', helping out. Much of the work was done by hand with horses pulling out the logs.

Why not listen to the Timber Jills MP3 audio trail along the **Tan y Coed Trail**, telling the story of the women who worked in the forests. Download the trail at naturalresources.wales/audiotrails.

Today Tan y Coed is home to a pleasant picnic site with tables amongst huge Douglas fir trees in the large grassy area around the car park.

It is the start for two tranquil woodland walks past old moss-covered trees and along the river including an **Animal Discovery Trail** for families.

Llwybr Darganfod Anifeiliaid



Cychwyn:
Maes parcio Tan y Coed.

Pellter: 1.1 m | 1.8 km
Amser: 1 awr
Gradd: Cymedrol
Dringo: 384 tr | 117 m

Uchafbwyntiau: Gallwch fod yn ddiectif natur os ewch ar hyd y llwybr arbennig hwn i deuluoedd. Cymerwch daflen a cheisiwch ateb y cllwiau i ddarganfod yr anifeiliaid pren sy'n cuddio yn y coed.

Animal Discovery Trail



Start:
Tan y Coed car park.

Distance: 1.1 m | 1.8 km



Time: 1 hour

Grade: Moderate

Climb: 384 ft | 117 m

Highlights: Be a nature detective on this special trail for families. Pick up a leaflet from the dispenser outside the toilets, and work out the clues to find the hidden wooden animals in the woods.

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE




© Hawlfraint y Goron
© Crown copyright

Llwybr Tan y Coed



Tan y Coed Trail



Cychwyn:
Maes parcio Tan y Coed.

Pellter: 1.5 m | 2.3 km
Amser: 1½ awr
Gradd: Cymedrol
Dringo: 532 tr | 162 m

Uchafbwyntiau: Gwasgu drwy'r twnel carreg at raeadr, gan ddilyn yr afon fyrlymus wedyn.

Chwiliwch am: Ar lan yr afon, gallwch weld y siglen lwyd gyda'i chynffon hir a'i bol melyn, a bronwen y dŵr, aderyn bach brown bywiog gyda gwddf a brest wen, yn hela am bryfed y dŵr. Mae'n hawdd gweld sut y cafodd y siglen lwyd ei henw, ac mae bronwen y dŵr yn plymio i'r dŵr i chwilio am fwyd (enw arall arni yw trochwr).




Start:
Tan y Coed car park.

Distance: 1.5 m | 2.3 km
Time: 1½ hours
Grade: Moderate
Climb: 532 ft | 162 m

Highlights: Squeezing through the rock passage to a waterfall, then following the tumbling river.

Look out for: At the riverside, you can see energetic grey wagtails with their long tails and yellow undersides as well as dippers: small perky brown birds with a white bib, hunt for water insects. Watch their bobbing and ducking movements to see how they got their names.

PROFFIL Y LLWYBR | ROUTE PROFILE



Llwybr ClimachX ClimachX Trail



Llwybr beicio mynydd **ClimachX**



Cychwyn: Maes parcio ClimachX, Ceinws

Pellter: 14.9 km

Amser: 1-2 awr

Llwybr: Coch | Anodd

Dringo: 1765 tr | 538 m

Efallai bod **Llwybr ClimachX** yn fyr, ond mae'n creu fwy o argraff nag y byddai ei hyd yn cyfleu. Disgyniad terfynol 'Tony y Teigr' yw'r uchafbwynt. Mwynhewch y trac sengl naturiol gydag adrannau technegol creigiog, cwympiadau, slabiau creigiog a thro i'r chwith sy'n ddigon i godi ofn cyn y ddisgynfa igam-ogam derfynol.

Mae'r llwybr yn cael ei reoli a'i gynnal a chadw gan grŵp cymuned lleol 'Beicio Mynydd Dyfi Mountain Biking'. Gweler beiciomynyddydyfi.org.uk am fwy o fanylion.

ClimachX mountain bike trail



Start: ClimachX car park, Ceinws

Distance: 14.9 km

Time: 1-2 hours

Grade: Red | Difficult

Climb: 1765 ft | 538 m

The **ClimachX Trail** may be short, but it packs a punch bigger than its length would suggest. The final descent, 'Tony the Tiger,' is the highlight. Enjoy the natural-feeling singletrack with technical rocky sections, drop-offs, rock slabs and the scary left-hander before the final switchback descent.

The trail is looked after and managed by the community interest company 'Beicio Mynydd Dyfi Mountain Biking'. See beiciomynyddydyfi.org.uk for more details.





Gwarchodfa Natur Genedlaethol
Dyfi: Ynyslas
National Nature Reserve

**Os wnaethoch
chi fwynhau
eich ymweliad
heddiw, beth
am archwilio
un o'n
safleoedd eraill
yn y cyffiniau?**

Gwarchodfa Natur Genedlaethol Dyfi: Ynyslas

Mwynhewch banorama hudol o'r afon, y môr a'r mynyddoedd yn y warchodfa enfawr hon sy'n cynnwys twyni, cyforgors a morfa heli a thraethellau aber afon Dyfi.

**If you enjoyed
your visit
today, why not
explore one
of our other
nearby sites?**

Dyfi National Nature Reserve: Ynyslas

Enjoy the sweeping panorama of river, sea and mountains at this huge reserve which includes sand dunes, a rare raised peat bog and the saltmarsh and sandbanks of the Dyfi Estuary.



Gwarchodfa Natur Genedlaethol
Cadair Idris
National Nature Reserve

Gwarchodfa Natur Genedlaethol Cadair Idris

Ymwelwch â pharcdir hardd ar odre Cadair Idris - man cychwyn poblogaidd i gerddwyr.

Parc Coedwig Coed y Brenin

Rhowch gynnig ar ein hamrywiaeth o lwybrau cerdded, rhedeg a beicio mynydd wedi eu harwyddo drwy goedwig ysbennnydd sy'n gartref i lawer o blanhigion ac anifeiliaid arbennig. Mwynhewch luniaeth wedyn yn y caffi.

Cadair Idris National Nature Reserve

Visit a beautiful parkland in the foothills of Cadair Idris mountain - a popular starting point for walkers.

Coed y Brenin Forest Park

Try our range of waymarked walking, running and mountain bike trails through a stunning forest which is home to many special plants and animals. Refresh yourself afterwards at the café.



0300 065 3000
cyfoethnaturiol.cymru
naturalresources.wales

Os hoffech chi'r cyhoeddiad hwn mewn fformat gwahanol, rhowch wybod inni:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
0300 065 3000

If you would like this publication in a different format, please let us know:
enquiries@naturalresourceswales.gov.uk
0300 065 3000

NATU173 02/24



Arwydd o goedwigaeth gyfrifol
The mark of responsible forestry

Mae coedwigoedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi'u hardystio'n unol â rheolau'r Forest Stewardship Council®

Natural Resources Wales forests have been certified in accordance with the rules of the Forest Stewardship Council®

Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%
Printed on 100% recycled paper



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government